OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1145 (Cy. 260)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym* | *21 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A55 a'r A494/A550, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 21 Hydref 2020.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 21 Hydref 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” neu “y cefnffyrdd” (“*the trunk road(s)*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a Chefnffordd yr A494/A550 Dolgellau i Fan i’r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50, 40 neu 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth lletach na 3.0 metr gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, droi i'r dde o gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**10.** (1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**11.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Hydref 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro, Terfyn Cyflymder 50, 40, 30 milltir yr awr a Chyfyngu ar Led Cerbydau 3.0 metr neu'n lletach

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i ffin Cymru/Lloegr, man i'r dwyrain o Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint.

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A494/A550 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 yr A55 (Cyfnewidfa Ewlo) i ffin Cymru/Lloegr, man i'r gogledd-ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

## ATODLEN 2
### Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro

Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Penmaenmawr.

Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Conwy.